



## Gorchymyn Caniatâd Datblygu Storfa Bwmp Glyn Rhonwy

Crynodeb o'r Datganiad Cynllunio (Cyf. Dogfen: 8.02W)

---



<b>Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio</b>	EN010072	
<b>Rhif y Ddogfen</b>	8.02W	
<b>Rheoliad</b>	5(2)(q)	
<b>Awdur</b>	Bilfinger GVA	
<b>Adolygiad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Disgrifiad</b>
0	Hydref 2015	Fersiwn Cyflwyno

---

## Cynnwys

1	Cyflwyniad .....	3
2	Cyd-destun Polisi Cynllunio .....	8
3	Asesiad Cynllunio .....	11
4	Casgliad.....	12

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg ar y Prosiect

- 1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r Datganiad Cynllunio (Cyf. Dogfen: 8.01) sy'n ategu cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ('y Cais') ar gyfer cynllun i adeiladu a gweithredu cyfleuster storfa bwmp sydd ag allbwn dichonol o 99.9 megawat (MW) (a elwir y 'Datblygiad' o hyn ymlaen) yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr, ger Llanberis yng Ngogledd Cymru.
- 1.1.2 Gan fod y datblygiad arfaethedig yn orsaf cynhyrchu trydan sydd ag allbwn dichonol o fwy na 50MW, mae'n cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (PSCA) o dan adran 15 o Ddeddf Cynllunio 2008 ('y Ddeddf'). Felly, dim ond drwy orchymyn (GCD) y gellir rhoi caniatâd datblygu ar ôl gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd (YG) yn unol ag adran 37 o'r Ddeddf.
- 1.1.3 Yn unol â'r Ddeddf, cyflwynir y Cais i'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Awdurdod Archwilio) i'w ystyried ac yn y pen draw i wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn penderfynu ar y Cais. Mae'r disgrifiad o'r datblygiad, sydd ar y ffurflen gais am GCD, fel a ganlyn:

*"Development of a pumped storage facility with an output capacity of 99.9MW, including a headpond at Chwarel Fawr together with associated dam and spillway infrastructure; an underground penstock; a tailpond at Glyn Rhonwy together with associated dam and spillway infrastructure to Llyn Padarn; powerhouse and ancillary buildings including underground turbine hall and access shaft, and underground tailrace to the tailpond; an underground pumping station together with surface level control box; and associated engineering, remediation and landscaping works, together with the diversion of public roads and rights of way and ancillary works".*

1.1.4 Rhoddwyd caniatâd cynllunio eisoes ar y safle (Cyf. CG: C12/1451/LL) ar gyfer adeiladu a gweithredu cyfleuster storfa bwmp â gallu cynhyrchu o 600 megawat awr (MWh), ac iddo allbwn dichonol o 49.9MW. Ar ôl rhoi caniatâd cynllunio, daeth i'r amlwg fod rhai cynlluniau wedi'u rhestru'n anghywir o dan Amod 2 ar yr hysbysiad penderfynu. Cywirwyd hyn drwy gais am ddiwygiad ansylweddol (Cyf. CG: C15/0308/15/DA) i newid y rhestr o gynlluniau a gymeradwywyd. Cymeradwywyd y cais ar 6 Mai 2015 ac mae Amod 1 ar y gymeradwyaeth i'r cais am ddiwygiad ansylweddol yn rhestru'r cynlluniau a gymeradwywyd yn gywir. Mae copïau o'r ddau hysbysiad penderfynu yn Atodiad D i'r Datganiad Cynllunio.

## 1.2 Yr Ymgeisydd

1.2.1 Sefydlwyd Snowdonia Pumped Hydro ("SPH") gan Quarry Battery Company ("QBC") i ddatblygu cynllun storfa bwmp Glyn Rhonwy a QBC yw rhiant-gwmni SPH. Mae QBC yn dod o hyd i systemau chwareli diddefnydd sy'n addas i'w troi'n fatriâu storfa bwmp. Yr ymgeisydd sydd wedi'i nodi ar y caniatâd cynllunio a roddwyd ar y safle (sy'n cael ei drafod isod yn rhan o gefndir y Datblygiad) yw QBC. Fodd bynnag, bydd SPH yn parhau'n ddatblygwr ar gyfer safle Glyn Rhonwy hyd y gellir rhag-weld ac ef yw'r Ymgeisydd ar y cais am GCD.

## 1.3 Pwrpas y Datganiad Cynllunio

1.3.1 Y Datganiad Cynllunio (Cyf. Dogfen 8.01) yw'r brif ddogfen gyfeirio sy'n egluro'r gefnogaeth mewn polisi i'r datblygiad arfaethedig yn ogystal â'r materion cynllunio perthnasol ac yn disgrifio sut y mae'r cais am GCD yn ymdrin â'r rhain.

1.3.2 Mae'r Datganiad Cynllunio yn un o set o ddogfennau a gyflwynir gyda'r cais yn unol ag Adrannau 37 a 55 o'r Ddeddf a Rheoliad 5 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) (2009) (fel y'u diwygiwyd).

1.3.3 Ceir disgrifiad o'r cyd-destun polisi cynllunio sy'n gymwys i'r datblygiad arfaethedig yn y Datganiad Cynllunio. Y prif ddogfennau polisi yw'r Datganiadau Polisi

Cenedlaethol perthnasol, yn ogystal â pholisïau cenedlaethol a lleol eraill sy'n ystyriaethau cynllunio perthnasol.

1.3.4 Mae'r Datganiad Cynllunio yn asesu'r datblygiad arfaethedig yn unol â'r meini prawf polisi ac yn dod i gasgliad ynghylch derbynoldeb cyffredinol y cais hwn am GCD yn unol â'r fframwaith penderfynu sydd wedi'i bennu yn Adran 104 o'r Ddeddf.

## 1.4 Lleoliad

1.4.1 Mae safle'r Datblygiad ar lethrau mynydd Cefn Du uwchlaw Llyn Padarn, a'i ganolbwynt ar gyfeirnod Grid Cenedlaethol SH 56268 60660. Mae'r cyfan o'r arwynebedd sy'n destun i'r cais am GCD o fewn ardal weinyddol Cyngor Gwynedd (CG) ac yn cwmpasu cyfanswm o 91.24 hectar, sy'n cynnwys nifer o chwareli diddefnydd a thomenni llechi, yn ogystal â thir sydd rhwng ac o gwmpas y chwareli sy'n cynnwys coetir, tir pori a llwyfan yr ystad ddiwydiannol.

1.4.2 Mae'r safle tua 1.5km i'r gogledd-orllewin o Lanberis ac 11km i'r de-ddwyrain o dref Caernarfon. Mae llyn a ffurfiwyd gan rewlif (Llyn Padarn) yn gyfagos i ran ogledd-ddwyreiniol y safle ac mae rhan o Derfynau'r Gorchymyn yn ymestyn i'r llyn.

1.4.3 Dangosir lleoliad y datblygiad arfaethedig ar y Cynllun Lleoliad Safle a gyflwynwyd gyda'r cais am GCD (Cyf. Dogfen 2.01) ac sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r Datganiad Cynllunio.

1.4.4 Mae'r safle o fewn a hefyd yn agos i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Llyn Padarn tua'r dwyrain. Mae'r safle o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd sydd wedi'i dynodi oherwydd y cyn chwareli llechi sy'n creu diddordeb hanesyddol ynddo ac mae hefyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig. Yn ogystal â hyn, mae'n 1km o ffin Parc Cenedlaethol Eryri. Mae nifer o safleoedd archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol yn agos i safle'r Datblygiad. Nid oes Safleoedd Treftadaeth y Byd, Parciau a Gerddi Cofrestredig,

Meysydd Brwydr Cofrestredig, nac Ardaloedd Cadwraeth o fewn 1km i Derfynau'r Gorchymyn.

## 1.5 Manylion y Prosiect

1.5.1 Mae'r Datblygiad arfaethedig yn cynnwys y prif gydrannau ac adeiladau atodol a ganlyn:

- un gronfa uchaf (Chwarel 1 (Q1) – Chwarel Fawr), ei hargae, siafft fynediad a seilwaith goferu i Nant y Betws;
- un gronfa isaf (Chwarel 6 (Q6) – Glyn Rhonwy), ei hargae, siafft fynediad a seilwaith goferu i Lyn Padarn;
- gorsaf bwmpio yn Llyn Padarn – a fydd yn tynnu dŵr pan fo angen ailgodi'r lefelau yn y system storfa bwmp (ac yn cyfrannu at ei llenwi ar y dechrau);
- pwerdy ar Lwyfan 5 yn Ystad Ddiwydiannol Glyn Rhonwy (i'r de o Q6) sy'n cynnwys tyrbinau a phympiau tua 70m o dan lefel y ddaear;
- pynfarch (yn cysylltu Q1 â'r pwerdy);
- pibell isaf (yn cysylltu'r pwerdy â Q6).

1.5.2 Bydd y Datblygiad yn cael ei gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan drwy gysylltiad trydanol newydd. Bydd y cysylltiad hwn yn rhedeg o is-orsaf ar y safle, ger y pwerdy, i bwynt cysylltu oddi ar y safle sy'n gorffen ym Mhentir. Y Gweithredwr Rhwydwaith Rhanbarth (SP Manweb) fydd yn gyfrifol am sicrhau caniatâd ar gyfer y cysylltiad trydanol a chan ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygu cysylltiedig yng Nghymru, nid yw'n dod o dan system ganiatáu Deddf Cynllunio 2008. Mae SPH wedi ymrwmo i sicrhau bod y cysylltiad hwn yn cael ei ddarparu o dan ddaear ac mae'r cynnig cyfredol ar gyfer cysylltiad â'r grid sy'n cael ei drafod â SP Manweb yn gofyn am gysylltiad dan ddaear. Mae rhagor o fanylion yn y Datganiad Cysylltiad â'r Grid (Cyf. Dogfen: 7.01) a gyflwynwyd gyda'r cais am GCD.

1.5.3 Sicrheir mynediad i Q1 i ddibenion adeiladu drwy'r Ffordd Werdd yn Waunfawr. Mae'r gwelliannau i'r ffordd hon, y gofynnwyd amdanynt gan Gyngor Gwynedd, yn cael eu hystyried yn ddatblygu cysylltiedig yng Nghymru ac, oherwydd hynny, gwneir cais cynllunio ar eu cyfer o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## 1.6 Cynnwys y Cais am GCD

1.6.1 Mae'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer ceisiadau am GCD yn Neddf Cynllunio 2008, y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (2009) a'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA).

1.6.2 Mae'r cais hwn am GCD yn cydymffurfio â'r gofynion yn Neddf Cynllunio 2008, y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (2009) a'r Rheoliadau AEA a'r canllawiau cymwysadwy sydd wedi'u dyroddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (YG) a'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys yn benodol Nodyn Cyngor 6 yr Arolygiaeth Gynllunio (Preparation and submission of application documents, Hydref 2014).

1.6.3 Ceir nifer o ymrwymadau yn y cais am GCD ar ffurf Gofynion GCD (yn Atodlen 2 i'r GCD Drafft, Cyf. Dogfen 3.01), a set o ddogfennau ar gyfer eu cymeradwyo ochr yn ochr â'r cynlluniau. Bydd y gofynion hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol sydd wedi'u hachosi gan y cynllun, a lle mae'r gofynion hyn yn gwneud y Cais yn fwy derbyniol o ran cynllunio, mae hyn wedi'i nodi yn y Datganiad Cynllunio.

## 2 Cyd-destun Polisi Cynllunio

### 2.1 Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS)

2.1.1 O dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'n ofynnol bod pob cais am GCD yn cael ei benderfynu'n unol ag unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol, er bod rhai eithriadau. Yn achos y Datblygiad hwn, y Datganiad Polisi Cenedlaethol sy'n fwyaf perthnasol yw'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol am Ynni (NPS EN-1), a gyhoeddwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ym mis Gorffennaf 2011. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddarpariaethau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (NPS EN-3) a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (NPS EN-5). Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn yn berthnasol i ryw raddau yng nghyd-destun y Datblygiad, ond nid ydynt yn ystyriaethau perthnasol allweddol ar gyfer penderfynu.

### 2.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

2.2.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y seithfed argraffiad o Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ym mis Gorffennaf 2014. Mae PCC yn disgrifio polisïau cynllunio defnydd tir LIC ac yn trosi ymrwymiad LIC i ddatblygu cynaliadwy i'r system gynllunio. Mae'r Penodau canlynol yn berthnasol i'r cais hwn am GCD:

- Pennod 4: Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd
- Pennod 5: Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir
- Pennod 6: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol
- Pennod 7: Datblygu Economaidd
- Pennod 8: Trafnidiaeth
- Pennod 11: Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden
- Pennod 12: Seilwaith a Gwasanaethau
- Pennod 13: Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli



---

## 2.3 Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)

2.3.1 Mae PCC wedi'i ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Mae nifer o'r rhain yn gymwys i'r datblygiad arfaethedig, ac mae eu darpariaethau penodol yn cael eu trafod ym mhenodau technegol y Datganiad Amgylcheddol (DA) a gyflwynwyd i ategu'r cais cynllunio. Ymhlith y Nodiadau Cyngor Technegol sy'n berthnasol y mae:

- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
- Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy
- Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn
- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio'r Arfordir
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
- Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd

## 2.4 Polisi Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol Arall

2.4.1 Mae'r Datganiad Cynllunio yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r dogfennau canlynol sy'n cynnwys polisi a chanllawiau cenedlaethol:

- Cynllun Gofodol Cymru (2008)
- Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel (2012)
- Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru (2008)
- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)

## 2.5 Polisi Cynllunio Lleol

- 2.5.1 Y cynllun datblygu statudol sy'n gymwys i'r datblygiad arfaethedig yw Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) a fabwysiadwyd yn 2009.
- 2.5.2 Mae'r polisiau strategol yn Rhan 1 o'r CDU yn adlewyrchu amcanion allweddol y Cyngor. Mae'r cynllun yn ceisio gwarchod yr amgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol, hyrwyddo dylunio da a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, a chyfeirio datblygu at dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen mewn lleoliadau a fydd yn lleihau'r angen i deithio. Mae'r polisiau sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 yn ymwneud â materion technegol a manwl.
- 2.5.3 Mae safle'r Datblygiad y tu allan i'r ffiniau anheddiad sydd wedi'u diffinio yn CDUG ac mae'r pen dwyreiniol (Chwarel 6 a Chwarel 7, a'r tiroedd o'u cwmpas) o fewn safle ailddatblygu a ddiffiniwyd ac ardal dalgylch dibyniaeth (lle bydd ceisiadau am ddatblygu a fydd yn cryfhau neu'n amrywiaethu economïau lleol yn cael eu cymeradwyo ar yr amod na fyddant yn gwneud niwed arwyddocaol i'r amgylchedd, nodweddion diwylliannol yr ardal neu amwynderau preswylwyr cyfagos).

## 2.6 Canllawiau Cynllunio Atodol

- 2.6.1 Credir y bydd y dogfennau atodol canlynol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn am GCD:
- Canllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd: Briff Datblygu Ardal Dalgylch Dibyniaeth Caernarfon (2009)
  - Cynllun Datblygu a Strategaeth Gweithredu Glyn Rhonwy (Gorffennaf 2008)

## 2.7 Polisi Cynllunio sydd yn yr Arfaeth: Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

- 2.7.1 O ran polisi cynllunio sydd yn yr arfaeth, mae CG a Chyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC). Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLIC yn cymryd lle CDUG. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu yn Ionawr/Chwefror 2017.



---

## 3 Asesiad Cynllunio

### 3.1 Penderfynu

3.1.1 Mae ceisiadau am GCD yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn archwilio'r ceisiadau ac wedyn yn gwneud argymhelliad i'r YG ynghylch a ddylid rhoi caniatâd.

3.1.2 Mae Adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r YG roi sylw wrth benderfynu ar geisiadau am GCD i unrhyw Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol a bod rhaid iddo benderfynu ar geisiadau'n unol ag ef oni byddai'r effeithiau niweidiol o'r datblygiad yn fwy na'r buddion (neu mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig eraill).

### 3.2 Asesu

3.2.1 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i asesu'n unol â'r meini prawf asesu sydd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol am Ynni (NPS EN – 1)

3.2.2 Yn ogystal â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol, mae'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol hefyd yn gymwys wrth asesu'r cais hwn am GCD. Mae'r polisiau cymwysadwy wedi'u rhestru isod er hwylustod:

#### **Polisi Cenedlaethol**

- PCC (Argraffiad 7)
- TAN 5, 8, 11, 12, 14, 15, 18, a 23

#### **Polisi Lleol**

3.2.3 Mae'r Datganiad Cynllunio yn nodi'r polisi cynllunio lleol a geir yn CDUG ac y credir ei fod yn berthnasol i'r GCD.

## 4 Casgliad

- 4.1.1 Mae Datblygiad y cyfleuster storfa bwmp yng Nglyn Rhonwy wedi'i ddyfeisio mewn ymateb uniongyrchol i'r angen am gael cyfleusterau storio trydan yn rhan o'r system drydan ar gyfer y dyfodol yn y DU.
- 4.1.2 Cafwyd caniatâd cynllunio eisoes i ddatblygu cyfleuster storfa bwmp ag allbwn dichonol o 49.9MW. Yn dilyn Diwygio'r Farchnad Trydan, credir y bydd y cynllun yn fwy hyfyw o safbwynt masnachol ac economaidd drwy gynyddu ei allbwn dichonol. Felly mae'r Datblygiad sy'n destun i'r cais am GCD yn cynnwys cyfleuster 99.9MW. Mae'n amlwg bod yr egwyddor o adeiladu a gweithredu'r cyfleuster hwn yn dderbyniol o safbwynt polisi cynllunio – ar y lefelau cenedlaethol a lleol.
- 4.1.3 Mae'r dyheadau ar gyfer y Datblygiad yn cwrdd ag amcanion y Llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau carbon a chyfrannu at gyflawni Cyfarwyddeb Ynni'r Undeb Ewropeaidd, a gyflwynwyd yn 2009, ynghyd â Datganiad LIC ar Bolisi Ynni – Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel (2012), sy'n amlinellu'r ymrwymiad i gyflawni'r rhaglen ynni er mwyn cyfrannu at leihau allyriadau carbon.
- 4.1.4 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn dod â nifer o fuddion clir gan gynnwys:
- byddai'r Datblygiad yn gallu cynhyrchu hyd at 99.9 MW o drydan ar y safle i'w allforio i'r grid cenedlaethol yn gyflym iawn pan fo'r galw ar ei uchaf;
  - byddai'r Datblygiad yn creu tua 250 o swyddi amser llawn yn uniongyrchol ar anterth y cyfnod adeiladu, ac yn creu 200 ychwanegol yn anuniongyrchol, ac yn darparu tua 20-35 o swyddi amser llawn yn ystod ei oes weithredol o 125 mlynedd;

- byddai cyfnodau adeiladu a gweithredu'r Datblygiad yn dod â buddion economaidd-gymdeithasol arwyddocaol eraill i'r ardal leol, e.e. rhagor o wariant;
- byddai'r Datblygiad yn gwneud defnydd o'r seilwaith presennol ar ystad ddiwydiannol Glyn Rhonwy, y cafwyd buddsoddi helaeth ynddo gan CG, gan gyfrannu at ei hyfywedd yn y tymor hir.

4.1.5 Mae NPS EN-1 yn cynnwys tystiolaeth o'r angen am gyfleusterau storio trydan ac mae dogfen Future Energy Scenarios y National Grid yn nodi eu bod yn rhan bwysig o'r offer sydd eu hangen i gydbwysu natur ysbeidiol yr ynni a gynhrychir o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r Datblygiad arfaethedig yng Nglyn Rhonwy yn gyson â phob agwedd ar bolisi cynllunio, ac ni fydd yn arwain at effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd. Ar ôl ystyried hyn, credir bod cyfiawnhad pendant dros roi Caniatâd Datblygu.